Crynodeb Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangywer

| Dyddiad | Datgan Buddiant | Presennol | Penderfyniadau |
|---|---|---|---|
| 11/3/24 | | **Presennol:** D Clwyd Davies (Cadeirydd), Gwyn Roberts (is-Gadeirydd), Eleri Jones, Tyly Roberts, W D Williams<br><br>Cynghorydd Alan Jones Evans<br><br>Lis Puw (Clerc)<br><br>Ymddiheuriadau: Emyr Jones, Geraint Roberts | Mae Cyngor Gwynedd yn chwilio am ardaloedd i dreialu bocsys hessian yn lle'r bocsys plastig glas. Roedd parodrwydd i dreialu'r rhain yn y pentref.<br><br>Ystyriwyd ceisiadau am nawdd cymunedol. Mae'r esgid yn gwasgu oherwydd ymrwymiad i gyfrannu tuag at greu llwybr y fynwent, ond cytunwyd i gyfrannu<br>Ystafell synhwyrau Y Bala £150 (talwyd Ebrill 2023)<br>Brecwast Ffermwyr £20 (talwyd Ionawr 2024)<br>CFFI Meirionnydd £130<br>Cantref £50<br>Eisteddfod Gylch £50<br><br>Cyfraniad at gynnal y Neuadd Bentref: £750<br><br>Cymeradwywyd cais Cyngor Gwynedd i ail godi llinell trydan sy'n arwain o gyfeiriad Llanfor.<br><br>**Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 13/5/24 yn y Neuadd bentref |